Ysgol Breswyl 'Merched y Wawr'
Aberystwyth 2009

Roedd 'Cicio'r Bar' yn draddodiadol
Ar y traeth flynyddoedd nôl
Ein croesawi'n gynnes gan Esyllt a Tegwen
A help y cotiau melyn fel bod angen.

Cael gweithgareddau a'r talentau
I bawb i fwynhau,
O'r Llyfrgell at Ddiemwntau
Daearyddiaeth, a'r stondinau.

Dawnswyr Talog yn llawn bywyd,
Cudyll coch a'r ddrama hefyd,
Oedd llyged pawb wedi eu hoelio
Ar y consuriwr 'Rosfa' yn perfformio.

Prynhawn Sadwrn ar y trên bach
Trwy Gwm Rheidol i Bontarfynach
Rhai i wylio'r Barcud yn Bwlch Nant yr Arian
A'r lleill i gerdded a gwario'r arian.

Adloniant gan Gôr ABC yn canu
Unawdwyr – Trefor, Helen a Barry,
Pawb mewn poenau, wrth chwerthin
Am y sgets ddychanol, o pum dyn.

Ar fore Sul cael gwasanaeth
Dan ofal Dana am 'Ffagl Gobaith'
Daeth ymgyrch y 'brasiers' i gyd i ben
Ac yn eu lle cawn blannu coeden.

Kathy Gittins a'i chyflwyniad hyfryd,
Cafodd Lowri Davies (Artist Cerameg)
Ei holi'n dwll gan Beti George hefyd,
A dyma'r penwythnos yn dod i ben.

Ond cyn mynd am adre
Gan Mererid oedd y diolchiade,
Am y gwledda a'r cwmnïa
Bydd yn ein cof am flynydde.

Beryl George